

# Amlinelliad o'r Swydd

---

## Teitl y Swydd:

Rheolwr Dyletswyddau

## Sail:

Dros Dro

## Cyflog:

Gradd 7

## Lleoliad:

Pafiliwn y Grand, Porthcawl

## Yn atebol i:

Rheolwr Gweithrediadau

## Yn gyfrifol am:

Dim rheolaeth uniongyrchol er y bydd yn rheoli gwirfoddolwyr ac aelodau eraill o staff blaen y tŷ yn ôl y gofyn.

## Eich Rôl:

Gweithredu fel Rheolwr Dyletswyddau, Goruchwylydd Digwyddiadau a daliwr allweddi ym Mhafiliwn y Grand, gan arwain ac ysbrydoli'r tîm ar sifft i ddarparu gofal cwsmeriaid rhagorol a phrofiad cwsmeriaid o'r radd flaenaf.

# Yn y rôl hon, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Agor a chau'r adeilad yn ôl yr angen, i ddiwallu anghenion y rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ym Mhafiliwn y Grand.
- Rheoli dyletswyddau gweithgareddau a digwyddiadau o ddydd i ddydd ym Mhafiliwn y Grand, gan ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel i bob cwsmer, llogwr a chwmni gwadd.
- Goruchwyllo a chefnogi'r tîm Gwirfoddolwyr Blaen y Tŷ a Chynorthwywyr Bwyd a Diod, gan eu defnyddio i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i'r gynulleidfa.
- Cyflwyno sesiwn friffio ac ôl-drafodaeth ddyddiol, gan gyfleu gwybodaeth hanfodol am sifftiau i dîm Blaen y Tŷ/Bwyd a Diod, yn ogystal â nodi manylion ac adborth i'w cylchredeg yn adroddiad dyddiol y digwyddiad a'i drosglwyddo i'r rheolwyr perthnasol, yn ôl yr angen.
- Adrodd ar faterion yn ymwneud â digwyddiadau ac argymell gwelliannau i safonau gwasanaeth cwsmeriaid ar y cyd â'r Rheolwr Gweithrediadau a Rheolwr y Theatr.
- Ymateb i gwynion ac ymholiadau gan gwsmeriaid yn effeithlon ac yn broffesiynol.
- Sicrhau bod yr holl ragofalon iechyd a diogelwch ar waith ac y cedwir at yr holl weithdrefnau adrodd sy'n hanfodol i ddiogelwch, gan gynnwys diogelwch tân, diogelwch adeiladau a chymorth cyntaf, ymhlith eraill.
- Mynd ati'n hyderus i gynnig gwybodaeth am wasanaethau hygyrchedd i gwsmeriaid.
- Cwblhau adroddiadau damweiniau yn gywir, gan gofnodi unrhyw waith dilynol priodol a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer y Rheolwr Gweithrediadau a Rheolwr Theatr Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cydgysylltu ag unedau busnes eraill er mwyn sicrhau bod perfformiadau a digwyddiadau yn rhedeg yn ddiraffferth.
- Paratoi ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys gosod a chlirio cadeiriau, byrddau ac offer arall.
- Cefnogi'r tîm Bwyd a Diod i drefnu a darparu unrhyw arlwygo sy'n gysylltiedig â digwyddiadau.
- Goruchwyllo gweithredoedd y bar yn ystod digwyddiadau gan sicrhau gwasanaeth didrafferth ac ystafell arlwygo lân wedi'i chynnal a'i chadw'n dda.
- Helpu gyda gwaith cynnal a chadw cyffredinol yr adeilad, gan gynnwys rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion, gwaith glanhau sylfaenol a chadw tŷ cyffredinol.
- Bod yn Swyddog Cymorth Cyntaf a sicrhau bod cymorth cyntaf yn cael ei roi yn unol â'r hyfforddiant.
- Gweithredu fel daliwr allweddi, gan sicrhau diogelwch bob amser; sicrhau eich bod yn cloi ac yn agor yr adeilad yn ddiogel.
- Cefnogi'r Rheolwr Gweithrediadau gyda dyletswyddau gweinyddol i baratoi ar gyfer digwyddiadau, a chadw'r tîm o Wirfoddolwyr.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch esgeulustodau yn y gwaith effeithio arnynt.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerth ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn unol ag arferion gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, ac efallai y bydd angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# awen

# Manyleb y Person

## Y Person (NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Ymagwedd ac agwedd hyblyg a rhagweithiol (H)
- Yn canolbwyntio ar atebion ac yn gallu canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau (H)
- Yn hyderus ac yn broffesiynol gyda'r gallu i ymdrin â chydweithwyr a'r cyhoedd yn effeithiol (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd mewn Theatr a'r Celfyddydau (H)
- Ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a phrosiectau newydd.
- Cyfrannu at yr ethos o welliant parhaus.
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i bwrpas a gwerthoedd Awen.  
commitment to Awen's purpose and values..
- Meddylwr arloesol a chreadigol sy'n mwynhau cefnogi datblygiadau a mentrau newydd.

# awen

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

(NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Tystysgrif Genedlaethol BTEC neu debyg mewn pwnc perthnasol neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Profiad o weithio mewn rôl oruchwylio rheng flaen gwasanaeth cwsmeriaid (H)
- Y gallu i weithio ar eich menter eich hun ac fel aelod allweddol o dîm (H)
- Y gallu i aros yn bwyllog a chanolbwyntio dan bwysau (H)
- Ymagwedd drefnus a llygad craff am fanylion (H)
- Rheoli amser yn dda a'r gallu i ddilyn cyfarwyddiadau (H)
- Yn gallu codi, symud a chario llwythi/stoc ac offer/eitemau eraill yn ôl yr angen (H)
- Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig (H)
- Deiliad trwydded bersonol neu'r gallu i wneud cais am drwydded bersonol (H)
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u goruchwylio.
- Gwybodaeth am reoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer theatrau a digwyddiadau byw, a dealltwriaeth ohonynt.
- Cymhwyster rheoli'n ddiogel IOSH.
- Cymhwyster TGCh ffurfiol neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad.
- Yn gallu siarad Cymraeg.
- 

# awen